Pecyn Pontio **Busnes**

Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso i'r pwnc Astudiaethau Busnes, rydych wedi dewis pwnc diddorol, heriol ac amrywiol. Mae'r pwnc yn edrych ar wahanol fathau o fusnesau a sefydliadau a sut maent yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig a chystadleuol.

Gweler safle we CBAC ar gyfer y fanyldeb.

Sgiliau:
Dadansoddi data, gwerthuso; gwaith grwp/par, ymchwilio, rhifedd, cyfathrebu, TGCh.

Gwaith Cychwynnol

1. https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/online-retail-to-hit-the-high-street-as-its-revealed-one-in-five-shops-could-close-by-2018-8633791.html

Defnyddiwch y we i ddarganfod effaith adwerthu ar-lein ar y stryd fawr. Faint o siopau/busnesau sydd wedi cau o ganlyniad i'r we? Pa effaith mae hyn wedi cael ar gymunedau a'r ffordd mae pobl yn byw? Sut mae busnesau wedi ymateb? (Creuwch Cyflwyniad Power Point tua 5 sleid / Cofiwch nodi unrhyw ffynonellau rydych yn defnyddio).

2. https://positivenegativeimpact.com/online-shopping

Defnyddiwch y we i ddarganfod y manteision ac anfanteision i fusnesau a chwsmeriaid o siopa ar-lein (Creuwch grid - 4 rhan - manteision ac anfanteision i fusnesau, manteision ac anfanteision i gwsmeriaid).

3. https://www.foxbusiness.com/markets/amazon-china-coronavirus-outbreak

Sut mae adwerthwyr ar-lein e.e. Amazon wedi elwa ac/neu ddioddef oherwydd y Coronavirus? (Ysgrifennwch erthygl papur newydd).

Gosod gwaith ymchwil

1. Beth ydy dyfodol y stryd fawr? Sut mae rhai cymunedau yn ymdopi/addasu?
2. Mae nifer o wasanaethau wedi cael eu awtomeiddio erbyn heddiw e.e. Bancio. Beth ydy'r manteision ac anfanteision o hyn i gwsmeriaid a busnesau?
3. Beth fydd effaith y Coronavirus ar fusnesau bach?

Ffynonellau

Gweler safle we CBAC - Astudiaethau Busnes.

Gwaith ail-ymgyfarwyddo

Mae yna agweddau o'r cwrs Lefel A sydd yn berthnasol i'r cwrs TGAU; rwyf wedi rhestru rhai ohonynt isod:

- Math o berchenogaeth (unig fasnachwyr
- Partneriaethau,
- Cwmniau cyfyngedig preifat/cyhoeddus),
- Ymchwil maes/desg
- Data meintiol/ansoddol
- Rhanddeiliaid

Tasg

Cynnal ymchwil i ddarganfod ystyr y termau uchod.